**CYD-CYFARFOD O PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET / ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT**

**(via Microsoft Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 20 Hydref 2021** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.H.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | M.Crowley, W.F.Griffiths, J.Hale, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, R.Phillips, M.Protheroe, , S.Renkes, A.J.Richards, M.Spooner, D.Whitelock, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Aelod Cyfetholedig** | M.Caddick |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Davies, A.Thomas, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jones, K.Jones, N.Pearce, R.Crowhurst, M.Shaw, J.Griffiths, S.Ball, R.Bowen, J.Merrifield, K.Windsor-Brown, J. Woodman-Ralph. |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr E.Latham, C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, A.Lockyer, P.Rees, P.Richards, L.Jones |
| **Arsylwyr:** | Cynghorwyr Rosalyn Davies<br>Cynghorwyr Charlotte Galsworthy<br>Cynghorwyr Sean Pursey |

---

1. **PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd y dylid penodi'r Cynghorydd Sonia Reynolds yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd mai'r Cynghorydd Saifur Rahaman fyddai'r Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Yng ngoleuni marwolaeth drasig ddiweddar Syr David Amess AS, gofynnodd y Cadeirydd i'r cyfarfod gynnal munud o ddistawrwydd.

## 3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Mathew Crowley | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024 gan ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Awel y Môr ac Ysgol Gynradd Tywyn ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd Wyndham Griffiths | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024 gan ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Blaenhonddan ac Ysgol Gynradd Waunceirch ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd Sian Harris | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024 gan ei bod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd y Creunant ond mae ganddi oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd Stephen Hunt | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024 gan ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Blaendulais ac YGG Blaendulais ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd Jane Jones | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024 gan ei bod yn Llywodraethwr yn Ysgolion Cynradd Ffederal Cwm Afan Uchaf ond mae ganddi oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd Dennis Keogh | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024 gan ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Cwm Brombil ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd Simon | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Peter Richards | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024 gan ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Blaenbaglan ac Ysgol Gynradd Baglan ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd Leanne Jones | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024 gan ei bod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Tonnau ac Ysgol Gynradd Melin ond mae ganddi oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd Peter Rees | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024 gan ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Crynallt ac Ysgol Gyfun Cefn Saeson ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd Sean Pursey | Parthed: | Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion - Cynnig i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024 gan ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Awel Y Mor ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |

## 4. RHAGLEN STRATEGOL GWELLA YSGOLION - CYNNIG I SEFYDLU YSGOL CYFRWNG SAESNEG 3-11 OED I GYMRYD LLE YSGOLION CYNRADD ALLTWEN, GODRE'R-GRAIG A LLANGIWG, Y BYDD POB UN OHONYNT YN CAU AR 31 AWST 2024. (YN AMGAEËDIG YM MHAPURAU'R CABINET)

Amlinellodd Andrew Thomas wybodaeth yn ymwneud â'r cyfnod gwrthwynebu statudol i'r eitem a gynhaliwyd rhwng 17 Mehefin 2021 a 14 Gorffennaf 2021. Derbyniwyd cyfanswm o 297 o

wrthwynebiadau ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu o 28 niwrnod. Roedd nifer mawr o negeseuon e-bost yn y fformat safonol, roedd 92 o'r 297 o wrthwynebiadau a dderbyniwyd ar fformat e-bost safonol. Darllenodd Andrew Thomas gopi o'r e-bost a dderbyniwyd. Derbyniwyd 35 o wrthwynebiadau mewn perthynas â'r Gymraeg, roedd 13 o'r rhain yn e-byst yn honni y byddai effaith andwyol ar y Gymraeg. Nid oedd yr un o'r themâu a gyflwynwyd yn yr adroddiad gwrthwynebu yn wahanol i'r rheini a gyflwynwyd yn yr adroddiad ymgynghori.

Pan fydd ad-drefnu'n digwydd mewn addysg cyfrwng Saesneg, dywedodd Mr Thomas nad oes gofyniad o dan y Côd Trefniadaeth Ysgolion i gynnal Asesiad Effaith y Gymraeg. Fodd bynnag, cydnabyddir bod Cwm Tawe yn ardal yr ystyrir ei bod yn sensitif yn ieithyddol. Felly cynhaliwyd asesiad.

Yn dilyn cyfarfod y Cabinet ar 16 Mehefin 2021, derbyniwyd e-bost gan Lywodraeth Cymru ar 25 Mehefin yn nodi bod ganddynt bryderon am yr asesiad a gynhaliwyd gan Gastell-nedd Port Talbot gan nad oedd yn mynd i'r afael yn benodol â'r hyn y mae sensitif yn ieithyddol yn ei olygu a hefyd nad oedd digon o liniaru. Gofynnwyd am gyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i drafod hyn ymhellach. Cynhaliwyd cyfarfod ar 27 Gorffennaf. Ar 9 Awst derbyniwyd e-bost gan Lywodraeth Cymru a oedd yn dweud y gellid archwilio mesurau lliniaru pellach i liniaru'r effaith ar ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos ac felly'r Gymraeg. Daethpwyd i gytundeb i benodi ymgynghorydd Cynllunio'r Gymraeg i wneud gwaith pellach dros yr haf i lywio asesiad effaith y Gymraeg ymhellach. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl gyda Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys diffinio a chadarnhau cyd-destun ystyr sensitif yn ieithyddol, gan nodi'r egwyddorion ar gyfer hyrwyddo a diogelu'r iaith mewn ardal o'r fath, ystyried sut y gellid rhoi'r egwyddorion ar waith ym Mhontardawe yng nghyd-destun cynnig Cwm Tawe a darparu opsiynau ynghylch lliniaru camau gweithredu i leihau effeithiau negyddol ar sefydlogrwydd twf y Gymraeg yn y dyfodol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Derbyniwyd yr adroddiad drafft oddi wrth Lywodraeth Cymru ar 18 Hydref. Defnyddiwyd yr adroddiad i ddiweddaru Atodiad K, Asesiad Effaith y Gymraeg CNPT.

Dywedodd Andrew Thomas y byddai ambell faes yn yr adroddiad drafft yr hoffent gael y cyfle i'w herio ond nad ydynt wedi cael cyfle eto i wneud hynny. Aeth Mr Thomas drwy ddwy enghraifft o ble y byddai hyn yn cael ei herio, gan gynnwys cyllid ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Tawe a hefyd sylwadau

ynghylch y ddarpariaeth bresennol addysg cyfrwng Cymraeg gyfredol.

Dywedodd Mr Thomas fod yr holl eitemau lliniaru wedi'u cynnwys yn Asesiad Diwygiedig Effaith y Gymraeg ac y gellir croesgyfeirio'r rhain â'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (Cynllun Strategol Addysg Gymraeg) sydd wedi'i ddosbarthu.  Cyfeiriodd ymhellach at y cynlluniau cyfalaf sydd wedi cael eu rhoi ar waith ac sydd wrthi'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Tawe.

Holodd yr aelodau a ellir defnyddio cyllid yr 21ain ganrif ar adeiladau wedi'u hadnewyddu yn ogystal â darparu adeiladau newydd. Cadarnhaodd swyddogion y gellir defnyddio'r cyllid i wella adeiladau presennol ond ni ellir defnyddio'r cyllid i ariannu gwaith atgyweirio a chynnal a chadw presennol sy'n ofynnol ar gyfer adeiladau presennol. Cyfeiriodd swyddogion at ysgol sydd mewn bod sef Ystalyfera, a grybwyllwyd yn yr adroddiad gwrthwynebu. Dywedodd swyddogion fod y £27 miliwn a wariwyd ar yr ysgol hon yn cynnwys ailfodelu'r safle'n sylweddol ac nid oedd wedi ariannu gwaith atgyweirio a chynnal a chadw cyfredol yn unig.

Dywedwyd wrth yr aelodau y rhoddwyd esboniad llawn yn ystod y cam ymgynghori ynglŷn â'r opsiynau amrywiol ar gyfer safle a ystyriwyd, gan gynnwys ysgol annibynnol ar gyfer Godre'r graig. Fodd bynnag, ystyriwyd bod £3 miliwn yn fwy o gostau cyfalaf a £0.5 miliwn y flwyddyn o gostau refeniw parhaus ar gyfer hyn.

Gofynnodd yr aelodau a ellir darparu adroddiad llawn a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru iddynt. Dywedodd swyddogion ei fod yn adroddiad gan Lywodraeth Cymru a gofynnwyd am ganiatâd ganddynt i atgynhyrchu a defnyddio adrannau o'r adroddiad a defnyddiwyd adrannau priodol o'r adroddiad yn adroddiad CNPT.

Dywedwyd wrth yr aelodau, pan dderbynnir cymeradwyaeth achos busnes llawn, ei bod fel arfer yn cael ei rhoi gyda llu o amodau bob amser. Mae un o'r amodau'n cyfeirio at gwblhau asesiad y Gymraeg boddhaol. Awgrymodd swyddogion fod hyn bellach wedi'i fodloni oherwydd y camau lliniaru a gyflwynwyd gan yr Ymgynghorydd Cynllunio, sef y gwendid yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i awgrymu oedd yn bresennol yn yr asesiad cynharach.

Holodd yr aelod pa niferoedd disgyblion mae'r ffigurau yn yr adroddiad yn seiliedig arnynt? Mynegwyd pryder y byddai angen i

niferoedd disgyblion gyrraedd trothwy penodol er mwyn i'r ysgol gyrraedd y ffigurau dichonadwy a amlinellir yn yr adroddiad. Dywedodd swyddogion fod cyllideb yr ysgol yn seiliedig ar fformiwla gan gynnwys nifer y disgyblion. Dywedodd Mr Thomas yn bendant na fyddai rhagor o ysgolion yn cau yng Nghwm Tawe, ar wahân i'r rheini sydd eisoes wedi'u nodi yn yr adroddiad. Mae nifer yr ysgolion a ragwelir yn yr adroddiad yn seiliedig ar nifer y plant sy'n byw yn y dalgylch a allai hawlio lle yn yr ysgol, nawr ac yn y dyfodol.

Dywedodd yr aelodau fod yr achos busnes llawn dros gau'r ysgol ac adeiladu ysgol newydd wedi'i gyflwyno cyn y cafwyd unrhyw ymgynghori ag aelodau o'r cyhoedd ar yr eitem. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion fod hyn yn cynnwys opsiynau ar y cam hwnnw pan gyflwynwyd yr achos busnes amlinellol. Gofynnodd yr aelodau hefyd am gadarnhad ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru'n fodlon ar yr ymateb yn adroddiad y Gymraeg.

Roedd yr aelodau'n cydnabod yr amgylchiadau a osodwyd gan COVID-19 ar gyfer cyflwyno'r cynigion hyn. Fodd bynnag, cydnabuwyd, pan fyddai cynnig i gau ysgol wedi'i gyflwyno yn y gorffennol, mae cyfarfodydd cyhoeddus bob amser wedi’u cynnal. Fodd bynnag, nid oes gofyniad cyfreithiol i wneud hyn. Holodd yr aelodau pam na chynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus rhithwir i drafod cau'r ysgolion arfaethedig.

Amlinellodd swyddogion y strategaeth ymgynghori a gynhaliwyd. Cydnabuwyd bod pawb wedi derbyn ymateb i'w sylwadau ar yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd ymgynghoriad wyneb yn wyneb gyda phlant yr ysgol a chynigiwyd cyfarfodydd i athrawon yr ysgolion yr effeithiwyd arnynt. Dywedodd swyddogion eu bod yn ymgynghori mewn modd roeddent yn credu y byddai'n gweddu orau i'r gymuned. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion am 6 wythnos yn hwy na'r angen.

Dywedodd swyddogion fod gan yr awdurdod £1.2 miliwn o'i gronfeydd cyfalaf ei hun y gall ei wario ar ymagwedd 'atgyweirio yn ôl y galw' at ysgolion. Cadarnhawyd bod y profion statudol yn cyfrif am tua thraean o'r gyllideb hon. Mae syrfewyr yn asesu ysgolion yn rheolaidd a chadarnhawyd bod gwaith atgyweirio wedyn yn cael ei wneud ar sail ‘y gwaethaf yn gyntaf’ o ran cynnal a chadw'r ysgolion.

Mynegwyd pryderon bod y safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd 5 milltir i ffwrdd o Godre'r graig ac Ystalyfera. Cadarnhaodd

swyddogion, os penderfynir symud ymlaen, y darperir cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

Cydnabu'r aelodau pa mor eang yw'r addysg y gellir ei chynnig mewn Ysgol yr 21ain Ganrif.

Nododd yr aelodau fod yr adroddiad a ddarparwyd yn seiliedig ar 700 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol newydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gan y tair ysgol gyda'i gilydd y cyfanswm hwn o ddisgyblion. Holodd yr aelodau beth fyddai'n digwydd pe na bai'r ysgol newydd yn cyrraedd y rhif hwn, a fyddai'n parhau i fod yn ariannol ddichonadwy?

Dywedodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar yr achos busnes yn seiliedig ar y niferoedd a ddarparwyd pan roddwyd y caniatâd amlinellol gwreiddiol. Mae niferoedd yr ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion yn y dalgylch a allai hawlio lle yn yr ysgol. Nid yw'r ffigur yn cynnwys y disgyblion hynny o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Rhaid i'r ysgolion hefyd fod yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn gallu darparu ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn nifer y disgyblion.

Holodd yr aelodau am y cyllid cyfalaf cyfrwng Cymraeg y gwnaed cais amdano yn 2018. Gofynnodd yr aelodau pam na chafodd YGG Trebannws ei chyflwyno ar gyfer y cyllid hwn? Cyflwynwyd chwe chynllun ac roedd pum cynllun yn llwyddiannus. Dywedodd swyddogion fod hyn fwyaf tebygol o ganlyniad i flaenoriaethau o ran niferoedd disgyblion a'u bod yn ymwybodol y byddai cyllid cyfalaf cyfrwng Cymraeg ar gael yn y dyfodol. Nodwyd bod YGG Trebannws wedi'i chyflwyno'n ddiweddar ar gyfer cyllid.

Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ei Hasesiad o Effaith y Gymraeg ei hun a chytunodd CNPT â'r Cylch Gorchwyl a bennwyd ar gyfer yr asesiad hwn. Roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu nad oedd CNPT wedi ystyried sensitifrwydd ieithyddol yr ardal yn ddigonol ac nid oedd wedi cynnwys digon o fesurau lliniaru pe bai effaith andwyol. Dywedodd swyddogion ei fod yn adroddiad a gynlluniwyd i ategu Asesiad Effaith y Gymraeg a gynhaliwyd gan CNPT a chyflawnwyd hyn yn llwyddiannus.

Cyfeiriodd yr aelodau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac amcan llesiant dau. Dywedodd swyddogion fod hyn wedi'i gynnwys gan fod y cyllid yn cynnwys 65% o'r costau ar gyfer y cyfleusterau

hamdden newydd ochr yn ochr â'r ysgol newydd. Felly, byddai oedolion yn elwa o hyn.

Cododd yr aelodau bryderon am y ffordd fynediad i'r safle newydd a'i allu i wasanaethu'r datblygiad newydd yn ddiogel yn ogystal â'r cyfleusterau presennol y mae'r ffordd yn eu gwasanaethu. Holodd yr aelodau pa fesurau sydd wedi'u cynnig i liniaru ffactorau sy'n ymwneud â rhwydweithiau priffyrdd cyfagos. Ystyriwyd canlyniad yr asesiad effaith traffig arfaethedig ac os oedd hyn yn negyddol, holodd yr aelodau beth fyddai'n digwydd. Byddai’r system gynllunio’n ymdrin â’r materion hyn.

Cynhaliwyd arolygon traffig ac maent yn cael eu hailadrodd yn yr ardal. Er y cydnabuwyd bod lefelau traffig wedi gostwng yn flaenorol o ganlyniad i'r pandemig, dywedodd swyddogion fod y rhan fwyaf o lefelau traffig bellach wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

Fel rhan o unrhyw gais cynllunio, byddai'n rhaid i'r Adran Addysg fynd i'r afael â pha fesurau fyddai'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw fannau prysur. Byddai angen iddynt hefyd gyflwyno asesiad effaith traffig a chynllun teithio a fyddai'n cynnwys dulliau trafnidiaeth a'r agenda teithio llesol. Byddai archwiliad diogelwch ar y ffyrdd hefyd yn cael ei gynnal i sicrhau bod holl ddefnyddwyr y ffordd yn ddiogel o fewn y rhwydwaith priffyrdd. Cadarnhawyd nad yw'r astudiaethau hyn wedi'u cynnal eto ac mae'r system gynllunio y tu allan i gylch gwaith yr adroddiad sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod. Mynegodd yr aelodau eu pryder ynghylch costau anhysbys yr arolygon sydd i'w cyflawni ac unrhyw waith a allai ddeillio o ganlyniad yr arolygon.

Amlinellodd swyddogion gyfanswm cost y prosiect o £22.7 miliwn ac roeddent yn hyderus bod hwn yn asesiad cywir rhesymol o gost gyffredinol y prosiect. Byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu 65% o'r gost, gyda CBSCNPT yn ariannu'r gost sy'n weddill.

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai archwiliad diogelwch ffyrdd yn cael ei gynnal ar y safle. Byddai hyn yn cael ei wneud yn annibynnol ar swyddogion priffyrdd CNPT. Gall yr archwiliad nodi gofynion datblygiad er mwyn mynd i'r afael â materion diogelwch a gall hefyd nodi sylwadau i'w hystyried o ran gweithredu cyfleuster wrth symud ymlaen. Mae swyddogion yn ymwybodol o faterion mewn safleoedd eraill yn y Fwrdeistref, fodd bynnag, mae'r materion hyn yn aml yn ymwneud ag ymddygiad defnyddwyr y briffordd. Gellir ystyried y materion hyn fel rhan o'r cynllun teithio. Bydd cynlluniau teithio llwyddiannus yn lleihau'r defnydd o draffig cerbydau preifat yn yr

ardaloedd. Os oes angen, gall yr Adran Gynllunio osod amodau ar unrhyw ganiatâd sy'n ymwneud â gorchymyn rheoliadau traffig i sicrhau bod y rheini ar y safle sy'n cael mynediad i'r ysgol yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhwydwaith priffyrdd.

Cadarnhaodd swyddogion, pe na bai rhai disgyblion yn mynychu'r ysgol newydd arfaethedig, fod rhywfaint o leoedd yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer y disgyblion.

Cydnabuwyd bod gofyniad fel rhan o'r Côd Aildrefnu Ysgol fod yn rhaid i'r awdurdod ymddwyn mewn ffordd benodol pan gaiff ysgol ei had-drefnu. Mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Fodd bynnag, nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgynghori ynghylch elfen pwll nofio’r cynigion. Mae'r cyllid ar gyfer y pwll newydd wedi'i gynnwys yn y pecyn ysgol ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hyn.

Cydnabu'r aelodau y bydd canolfan cefnogi dysgu yn rhan o’r ysgol newydd arfaethedig. Bydd hyn yn caniatáu i blant ag anghenion dysgu ychwanegol fynychu'r un ysgol â'u brodyr a'u chwiorydd.

Mynegodd yr aelodau eu pryder am y llety dros dro presennol ar gyfer Ysgol Gynradd Godre'r graig.

Holodd yr aelodau am yr effeithiau ar fioamrywiaeth. Fel rhan o gais cynllunio, mae bioamrywiaeth yn ystyriaeth allweddol. Byddai angen arolwg cynefin i gefnogi unrhyw gais. Byddai'n rhaid lliniaru unrhyw effaith ar fioamrywiaeth mewn cynllun disodli.

Amlinellodd a chadarnhaodd swyddogion sut bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar amcan llesiant tri.

Cynigiwyd ac eiliwyd pleidlais wedi'i chofnodi a chytunwyd arni’n unol â'r gweithdrefnau gofynnol.

Cynhaliwyd y bleidlais i benderfynu pa aelodau oedd o blaid ac yn erbyn yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Roedd canlyniadau'r bleidlais fel a ganlyn:

O blaid: Y Cynghorwyr M Crowley, S Miller, R Mizen, S Paddison, S Penry, M Protheroe, S Rahaman, S Renkes, S Reynolds, D Whitelock, R Wood, A Woolcock.

Yn erbyn: Y Cynghorwyr W Griffiths, J Hale, S Harris, N Hunt, S Hunt, J Jones, S Knoyle, A Llewelyn, R Phillips, A Richards, M Spooner.

Ymwrthod: M Caddick

Yn dilyn y broses graffu, roedd mwyafrif y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**